# CYNLLUN CORFFORAETHOL 2019-22



menter caerdydd

# CYFLWYNIAD

Yma ym mhrifddinas Cymru mae diddordeb cynyddol yn y Gymraeg ac mae'n hanfodol bod yr iaith yn weladwy, nid yn unig i ddinasyddion Caerdydd ond hefyd i'r miliynau o ymwelwyr sy'n heidio yma o bell ac agos bob blwyddyn.

Mae'r Gymraeg ar dwf ac mae ystadegau'r Cyfrifiad yn 2011 yn profi hynny. Mae'r iaith i'w chlywed fwyfwy ar hyd y strydoedd ac yn ein cymunedau. Mae cynnydd yn niferoedd y plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n siarad ac yn dysgu Cymraeg ac mae angen mwy o ysgolion i ateb y galw cynyddol am gyfleoedd addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid yw'n ddigon i ddibynnu ar dwf mewn addysg Gymraeg yn unig wrth gynllunio dyfodol ieithyddol y ddinas. Mae angen sicrhau cyfleoedd cymdeithasol tu allan i oriau'r ysgol er mwyn i'r plant a'r bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg a'i gweld hi fel iaith fyw.

Sefydlwyd Menter Caerdydd yn 1998 gyda'r nod o hyrwyddo ac ehangu defnydd y Gymraeg yng Nghaerdydd drwy greu cyfleoedd i drigolion y ddinas ddefnyddio'r iaith y tu allan i oriau gwaith a muriau'r ysgol.

Mae sefyllfa'r Gymraeg yn dra gwahanol yng Nghaerdydd i'r hyn oedd hi pan sefydlwyd y Fenter. Gellir dweud yn hyderus fod Menter Caerdydd wedi chwarae rhan flaenllaw yn cefnogi, ac yn wir ar adegau, yn arwain y cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws y ddinas.

Byddwn yn adlewyrchu anghenion cymunedau gwahanol er mwyn parhau i gael effaith gadarnhaol ar gefnogi, hyrwyddo a chynyddu defnydd cymunedol y Gymraeg yn ein prifddinas.

Felly wrth gynllunio ein strategaeth newydd rydym wedi bod yn ymwybodol o'r angen i fod yn glir ar ble all y Fenter wneud y cyfraniad mwyaf ar gyfer y cyfnod nesaf er mwyn parhau i adeiladu ar y cynnydd.

# UCHELGAIS

**Y Gymraeg yn dod yn rhan ganolog o fywyd Caerdydd.**

# DATGANIAD CENHADAETH

**Hyrwyddo ac ehangu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yng Nghaerdydd.**

Mae gwaith Menter Caerdydd yn greiddiol i gefnogi a chyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a Strategaeth Cyngor Caerdydd o greu dinas gwbl ddwyieithog.


Mae ein gwaith yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Yn ganolog i'n huchelgais yw gweld Caerdydd yn fwrlwm o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ynghyd â chymdeithas sy'n hyrwyddo a gwarchod ein diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith.

Mae gan bob un ohonom, yn bartneriaid, cyllidwyr, rhanddeiliaid, gwirfoddolwyr a dinasyddion gyfraniad pwysig i'w wneud i wireddu hyn.

# AMCANION STRATEGOL

- **Hyrwyddo a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg**
- **Codi hyder a gwella agweddau pobl tuag at y Gymraeg**
- **Cryfhau/cynyddu defnydd y Gymraeg ymysg teuluoedd**
- **Cefnogi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion trwy gyfrwng y Gymraeg**
- **Trefnu Tafwyl i ddathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig**
- **Sicrhau bod gan y Fenter lwyfan digidol effeithiol ar gyfer y Gymraeg**
- **Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff a sefydliadau amrywiol**

# EIN BLAENORIAETHAU




# TEULU

**Cynnig cyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg i blant a'u rhieni/gwarchodwyr.**

Byddwn yn:

- mapio'r ddarpariaeth bresennol o gyfleoedd cymdeithasol Cymraeg i'r teulu
- adnabod ardaloedd lle mae angen ehangu'r ddarpariaeth
- cynyddu ein dewis o gyfleoedd i deuluoedd Caerdydd gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg
- cynllunio a datblygu prosiectau penodol i dargedu teuluoedd iaith cymysg
- sicrhau dilyniant o un oedran i'r llall o fewn ein rhaglenni
- trefnu gweithgareddau mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws Caerdydd
- creu partneriaethau gweithredol cryf

**Darparu 7 sesiwn Amser Stori wythnosol gan ddenu mwy na 180 o rieni a phlant pob wythnos**



# PLANT

**Cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol.**

Byddwn yn:

- ehangu ein dewis o gyfleoedd i blant Caerdydd gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg
- adnabod ardaloedd lle mae angen ehangu'r ddarpariaeth
- trefnu gweithgareddau mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws Caerdydd
- parhau i ofyn barn plant Caerdydd ar sut yr hoffen nhw weld y Gymraeg yn datblygu
- creu partneriaethau gweithredol cryf


**Bron i 4,000 o blant 4-11 oed yn mwynhau ein cynllun chwarae agored a 400 o blant yn mynychu ein cynlluniau gofal dydd yn ystod gwyliau ysgol**

# POBL IFANC

**Cynnig cyfleoedd i bobl ifanc barhau i ddefnyddio'r Gymraeg.**

Byddwn yn:

- cynnig llais i bobl ifanc a rhoi cyfle iddynt ddod at ei gilydd i rannu syniadau
- ehangu ein dewis o gyfleoedd i bobl ifanc Caerdydd gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg
- rhoi cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth amrywiol o fewn ein rhaglenni
- adnabod ardaloedd lle mae angen ehangu'r ddarpariaeth
- trefnu gweithgareddau mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws Caerdydd
- creu partneriaethau gweithredol cryf



**Twf o 45% mewn 10 mlynedd yn y nifer o blant a phobl ifanc mewn addysg Gymraeg yng Nghaerdydd**


# OEDOLION

**Cynnig cyfleoedd cymdeithasol i oedolion Caerdydd ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg yn gymdeithasol.**

Byddwn yn:

- cydlynu a chynnal rhaglen o gyrsiau hamdden i oedolion sy'n addas ar gyfer amryw o alluoedd iaith
- cefnogi ymdrechion oedolion sy'n dysgu neu'n ailafael yn y Gymraeg trwy hyrwyddo a darparu cyfleoedd i ymarfer, sgwrsio a chodi hyder
- adnabod ardaloedd lle mae angen ehangu'r ddarpariaeth
- trefnu gweithgareddau mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws Caerdydd
- creu partneriaethau gweithredol cryf

**Twf o 39% yn nifer y siaradwyr Cymraeg (3+oed) yng Nghaerdydd rhwng 2016 a 2019**




Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, Llywodraeth Cymru - mae'r arolwg hwn yn cynnig amcangyfrif mwy rheolaidd o nifer y siaradwyr Cymraeg, ac felly mae data'r Arolwg yn gallu monitro'r tueddiadau rhwng y Cyfrifiadau

# TAFWYL

**Cynnal gŵyl gynhwysol flynyddol sy'n ddathliad o'r gorau ym myd y celfyddydau a diwylliant Cymreig.**

Byddwn yn:

- codi proffil y Gymraeg yng Nghaerdydd trwy roi cyfle i blant, pobl ifanc ac oedolion flasu ychydig o'r iaith yn ein prifddinas
- cyflwyno'r iaith a diwylliant Cymreig i gynulleidfa hollol newydd
- cynnig cyfle i godi hyder yn y Gymraeg a chael mynediad at yr iaith
- datblygu cyfres o ddigwyddiadau drwy'r flwyddyn gan barhau i gryfhau brand Tafwyl
- torri tir newydd ac ymestyn dylanwad yr ŵyl y tu hwnt i Gymru
- cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc ac oedolion y ddinas
- creu partneriaethau gweithredol cryf

**Daeth dros 40,000 o bobl i Tafwyl yn 2018 i fwynhau'r rhaglen orau eto gyda 48 o fandiau byw a 376 o ddigwyddiadau unigol.**

**Denodd yr ŵyl 32 o noddwyr a chael effaith economaidd o dros £2.4miliwn ar Gaerdydd.**




# CAERDYDD DDWYIEITHOG

**Cyfrannu tuag at greu Caerdydd Ddwyieithog lle gall dinasyddion fyw eu bywydau yn gwbl ddwyieithog.**

Byddwn yn:

- parhau i dargedu a chefnogi unigolion a busnesau bach ar hyd a lled y ddinas i gynyddu defnydd o'r Gymraeg
- arwain Fforwm Caerdydd Ddwyieithog sy'n gweithio gyda phartneriaid i hybu'r Gymraeg a hwyluso'i defnydd yn ehangach
- cryfhau a datblygu ein rhwydwaith cysylltiadau digidol er mwyn cyfathrebu gyda'n defnyddwyr presennol a denu cynulleidfa newydd
- parhau i hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg yng Nghaerdydd

**Mwy na 25 o bartneriaid lleol a chenedlaethol yn rhan o Fforwm Caerdydd Ddwyieithog.**

Dros yr 20 mlynedd ddiwethaf rydym wedi gweithio mewn partneriaeth i ddarparu a chefnogi rhaglen eang o gyfleoedd cymunedol yn y Gymraeg ac wedi annog, cymhwyso, hwyluso a chefnogi byddin o wirfoddolwyr a chyfleoedd cyflogaeth.

Gyda thwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd mae ein gwasanaethau yn cael effaith gadarnhaol ar gefnogi a chynyddu defnydd cymunedol o'r iaith, ac mae adeiladu ar y partneriaethau cadarn ac amrywiol yma yn hanfodol i wireddu'r weledigaeth.

Gyda'n gilydd gallwn barhau i arloesi, mentro a chydweithio i greu cyfleoedd newydd ac apelgar i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd o'r iaith er mwyn cyfrannu tuag at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

# MONITRO

Mae Bwrdd Rheoli Menter Caerdydd yn mesur cyrhaeddiad pob maes wrth fonitro y Cynllun Gweithredol.

Mae Menter Caerdydd hefyd yn adrodd i Lywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd yn y cytundeb partneriaeth blynyddol.

**"Mae Menter Caerdydd yn cynnig amrywiaeth eang a diddorol o weithgareddau i blant ac oedolion gan roi'r argraff fod yr iaith yn fyrlymus yn y ddinas"**

**"It allows my child to have access to the Welsh language outside of school. This is important to us as learners, and without Menter Caerdydd my child doesn't have the opportunity to speak Welsh"**

menter caerdydd

**Menter Caerdydd**
Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais, Caerdydd, CF10 1BH

029 2068 9888
post@mentercaerdydd.cymru
**mentercaerdydd.cymru**

m.caerdydd
MenterCaerdydd
mentercaerdydd